



[www.ASDinfoWales.co.uk](http://www.ASDinfoWales.co.uk)

**CANLLAW CEFNOGOL**

## Cynnwys

Cefndir.....	3
Adroddiad ymgynghori 2015 .....	3
Cyllid.....	4
Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig i Gymru.....	4
Ethos y Gwasanaeth.....	5
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.....	5
Yr egwyddorion allweddol ar gyfer y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig .....	6
Ymyriadau .....	8
Oedolion.....	8
Rhieni a Gofalwyr .....	8
Oedolion ifanc.....	8
Casglu data.....	9
Trefniadau adrodd .....	9
Cysondeb adrodd .....	9
Asesiad Diagnostig - Oedolion .....	9
Cefnogaeth.....	10
Safonau .....	11
Safonau am asesiad diagnostig.....	11
Safonau ar gyfer gwybodaeth ôl-ddiagnostig a ddarperir .....	12
<b>Atodiad 1 – Ffurflen Atgyfeirio Asesiad Diagnostig .....</b>	<b>13</b>
<b>Atodiad 2 – Ffurflen Atgyfeirio Cymorth y Gwasanaeth.....</b>	<b>19</b>

## Cefndir

Ceir tystiolaeth glir bod nifer fawr o bobl Awtistig, yn enwedig rhai heb anabledd dysgu neu broblemau iechyd meddwl dwys sy'n cyd-ddigwydd nad ydynt yn gymwys am wasanaethau haen 2 a 3, yn aml yn syrthio i'r bylchau rhwng gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledau dysgu statudol. O ganlyniad, ni allant gael mynediad i gymorth emosiynol, ymddygiad, iechyd meddwl lefel isel na sgiliau bywyd. Yn aml iawn, bydd gan nifer fawr anghenion cymorth lefel is ac os nad eir i'r afael â nhw, gallent ddwysau i fod yn broblemau iechyd mwy difrifol.

Mae Cynllun Gweithredu Strategol ASD wedi'i adnewyddu gyda chymorth grŵp ymgynghorol arbenigol ac mae mater angen heb ei fodloni wedi'i ddynodi'n flaenoriaeth i weithredu arno. Fel rhan o'i ddatblygiad yn 2015, cynhaliwyd ymarfer cwmpasu i astudio'r ddarpariaeth bresennol er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch yn y gwasanaethau yng Nghymru.

Ym mis Rhagfyr 2015, cyflwynwyd yr adroddiad ymarfer cwmpasu i'r Gweinidogion gyda'r opsiynau ar y modelau posibl er mwyn mynd i'r afael â'r materion i'w hystyried. Y dewis a ffafriwyd oedd datblygu gwasanaeth awtistiaeth integredig, a fyddai'n cynnwys datblygiad pellach o ddarpariaeth asesu diagnostig oedolion a chymorth gydol oes i unigolion gydag ASD a'r sawl sy'n eu cefnogi. Bydd cyllid ar gyfer y gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan Gronfa Gofal Canolraddol Llywodraeth Cymru.

Datblygiad y gwasanaeth hwn yw prif amcan cyflawni Cynllun Gweithredu Strategol ASD wedi'i adnewyddu.

### Adroddiad ymgynghori 2015

Er mwyn cefnogi Cynllun Cyflawni ASD Interim Llywodraeth Cymru a'i lifoedd gwaith, cynhaliwyd nifer o arolygon a digwyddiadau grwpiau ffocws er mwyn cadarnhau'r materion yr oedd unigolion gydag ASD, eu gofawyr ac aelodau eu teuluoedd yn mynd trwyddi ar hyn o bryd. Yn ogystal â'r data hwn, defnyddiwyd Prosiectau Monitro a Chefnogi Cymunedol ASD.

Mae rhieni, gofawyr ac unigolion gydag ASD yn aml yn dweud wrthym nad yw eu hanghenion cymorth yn cael eu bodloni, a nod yr ymarfer hwn yw dynodi'r meysydd lle erys bylchau yn y ddarpariaeth.

Rhoddodd llawer o rieni, gofawyr ac unigolion gydag ASD o'u hamser i rannu eu barnau gyda ni. Fodd bynnag, mae'n werth nodi ei bod hi'n eithaf clir bod unigolion yn teimlo'n rhwystredig iawn o gyfrannu at ymgynghoriadau ac arolygon niferus a pheidio â gweld canlyniadau'r rhain. Mae gennym bellach wybodaeth sylweddol am anghenion unigolion gydag ASD a'u gofawyr a rhaid inni ystyried o ddifrif a ydy ymgynghoriadau i'r dyfodol wir yn angenrheidiol.

Roedd bylchau yn y ddarpariaeth a materion a brofwyd yn debyg yn fras i blant ac oedolion a cheir patrwm tebyg o anghenion heb eu bodloni a adlewyrchir ar draws yr holl weithgareddau a gyflawnwyd.

Mewn perthynas â'r cymorth a'r ddarpariaeth barhaus, y meysydd angen heb eu bodloni a adroddwyd amlaf ar draws plant ac oedolion oedd:

- Cymorth ar gyfer materion emosiynol / ymddygiad
- Cymorth ar gyfer materion penodol i ASD a sgiliau bywyd
- Mynediad i gyfleoedd cymdeithasol a hamdden yn eu cymuned eu hunain

Yn ogystal â'r rhain, roedd diffyg darpariaeth addysg ymwybodol o ASD cefnogol yn broblem a adroddwyd yn aml i blant awtistig ac roedd diffyg cymorth ar gyfer cyflogaeth wedi'i adrodd yn aml fel angen heb ei fodloni i oedolion.

Yn ogystal, mae rhieni a gofalwyr yn adrodd anghenion cymorth heb eu bodloni. Unwaith eto, mae'r rhain yn gyson ar draws y rhai sy'n gofalu am blant ac oedolion, gyda'r rhai a adroddir amlaf fel a ganlyn:

- Anallu i droi at gyngor yn amserol
- Diffyg gweithgareddau cymdeithasol sy'n arwain at unigedd cymdeithasol
- Diffyg hyfforddiant, gwybodaeth a chymorth i reoli problemau ac ymddygiadau

Mae rhieni / gofalwyr hefyd yn teimlo bod gwybodaeth amwys, graddfeydd amser a chyngor yn anodd iawn. Ymddengys bod tair thema'n dod i'r amlwg ar draws pob maes angen a phob oedran:

- Mae gan staff mewn nifer fawr o wasanaethau generig a chymunedol ddiffyg sgiliau a gwybodaeth i gefnogi unigolion gydag ASD
- Mae meini prawf cymhwyster ar gyfer gwasanaethau haen 2 a 3 yn golygu bod unigolion gydag ASD gweithredu lefel uchel (a'u gofalwyr) yn cwmpo i fylchau rhwng gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledau dysgu ac felly ni allant droi at gymorth emosiynol, ymddygiad, iechyd meddwl lefel isel a sgiliau bywyd.
- Mae angen addasu cymorth a gwasanaethau cymunedol generig presennol er mwyn bod yn addas ar gyfer nifer fawr o unigolion gydag ASD oherwydd eu hanghenion penodol.

Dylid nodi bod datblygiadau i fynd i'r afael â nifer fawr o'r materion a godwyd yn yr ymgynghoriad bellach yn mynd rhagddynt, dan gyfarwyddwyd Cynllun Gweithredu Strategol ASD o'r Newydd.

### Cyllid

Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fuddsoddiad o £6 miliwn i ddatblygu Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig i Gymru. Ym mis Ebrill 2017, cyhoeddodd y Gweinidog dros y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd Cyhoeddus gyllid ychwanegol gan gymryd y cyfanswm y cyllid i £13 miliwn. Darperir y cyllid hwn i Fyrddau Partneriaeth Ranbarthol trwy'r Gronfa Gofal Canolraddol a fydd yn ariannu'r gwasanaeth tan fis Mawrth 2021. Cyfeiriwch at ganllawiau'r Gronfa am ddyraniadau.

### Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig i Gymru

Mae'n amlwg na all unigolion awtistig droi at y cymorth y mae arnynt ei angen. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymroi'r cyllid hwn i ddatblygu gwasanaeth cenedlaethol sydd

- Yn deg ar draws Cymru
- Yn darparu gwybodaeth gyson a hygyrch

- Yn darparu cymorth cyson a hygyrch

*[Datblygwyd y gwasanaeth i fodloni anghenion unigolion Awtistig (a'u teuluoedd a gofalwyr) nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwyster am wasanaethau statudol. Dylai'r rhai sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyster am wasanaethau statudol gael eu cefnogi gan y gwasanaeth sy'n mynd i'r afael â'r angen mwyaf arwyddocaol ac nid y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. Lle mae gan staff ddiffyg profiad neu hyder mewn gweithio gydag unigolion awtistig, gallent geisio cyngor ac arweiniad gan y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig neu hyfforddiant a gydlynir gan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol.]*

### **Ethos y Gwasanaeth**

Nod y gwasanaeth yw sicrhau bod unigolion awtistig, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn gallu troi at y cyngor, y gefnogaeth a'r ymyriadau angenrheidiol i'w galluogi i gyrraedd eu llawn botensial lle nad yw'r rhain ar gael fel arall.

### **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant**

Gan weithio gydag egwyddorion gwaelodol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, bydd y gwasanaeth yn canolbwyntio ar wella lles unigolion awtistig wrth ystyried yr addasiadau i ymarfer arferol y mae ar yr unigolion hyn eu hangen. Datblygwyd y canllawiau ar gyfer y gwasanaeth yn dilyn ymgynghori helaeth gyda defnyddwyr gwasanaeth ac adolygiadau o arfer gorau a'r dystiolaeth orau sydd ar gael.

## Yr egwyddorion allweddol ar gyfer y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig

Dylid defnyddio'r egwyddorion i arwain datblygiad y gwasanaeth a chyflawniad gweithredol

### Egwyddor 1

Ac eithrio'r asesiad diagnostig o oedolion, dim ond y rhai sydd wedi cael diagnosis ffurfiol o awtistiaeth all droi at y gwasanaeth. Fodd bynnag, gall y Gwasanaeth weithio gydag oedolion ar eu rhestr aros am Asesiad Diagnostig.

### Egwyddor 2

Bydd y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn gweithio'n uniongyrchol i gefnogi oedolion awtistig (a'u teuluoedd a gofalwyr) sy'n methu troi at gyngor na chymorth o wasanaethau statudol oherwydd **eithriad cymhwyster**.

### Egwyddor 3

Bydd y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn cynnig ymgynghori, cyngor a chymorth i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gydag unigolion awtistig sy'n troi at wasanaethau statudol / anstatudol.

### Egwyddor 4

Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn rhoi cyngor a chymorth i rieni a gofalwyr plant a phobl ifanc awtistig.

### Egwyddor 5

Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn darparu ymyrraeth gyfyngedig o ran amser sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

### Egwyddor 6

Bydd y gwasanaeth yn darparu asesiad diagnostig ar gyfer pobl 18 oed neu'n hŷn ac nad ydynt yn gymwys am asesiad diagnostig gan y gwasanaethau Anabledau Dysgu neu lechyd Meddwl oherwydd eithriad cymhwyster. Bydd hyblygrwydd lleol rhwng y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a'r gwasanaeth niwroddatblygiadol mewn perthynas ag oedolion ifanc.

### Egwyddor 7

Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn cysoni gyda'r ddarpariaeth bresennol i unigolion awtistig er mwyn atal dyblygu a sicrhau cefnogaeth ddi-dor. Bydd y gwasanaeth yn hyrwyddo gweithio cydweithredol gydag asiantaethau eraill er lles yr unigolyn awtistig a'r rhiant a gofalwr.

## Egwyddor 8

Mae'r Gwasanaeth yn adnodd ychwanegol ac ni fydd yn disodli unrhyw wasanaeth sy'n bodoli, nac yn arwain at dorri'r gwasanaethau presennol.

## Egwyddor 9

Bydd y Gwasanaeth yn sicrhau bod llais unigolion awtistig a'u rhieni a gofalwyr yn cael eu gwranddo arnynt trwy ymgysylltiad rhagweithiol.

## Ymyriadau

### Oedolion

I oedolion awtistig sy'n methu troi at gyngor neu gymorth gan y gwasanaethau statudol oherwydd **eithriad cymhwyster**, (a lle **nad oes darpariaeth ar gael yn rhywle arall**), bydd y Gwasanaeth yn darparu:

- asesiad diagnostig
- gwybodaeth a chymorth ôl-ddiagnostig
- rhaglenni dysgu cymdeithasol seiliedig ar ddatblygu rhyngweithio cymdeithasol
- rhaglenni hyfforddiant wedi'u saernïo a rhagweladwy seiliedig ar egwyddorion ymddygiad sy'n canolbwyntio ar wella sgiliau byw pob dydd
- cymorth i droi at raglenni gweithgarwch hamdden i leihau unigedd cymdeithasol
- ymyriadau ymwybyddiaeth emosiynol a rheoleiddio, wedi'u haddasu i anghenion oedolion awtistig.
- ymyriadau gwrth-erledigaeth seiliedig ar addysgu sgiliau gwneud penderfyniadau a datrys problemau
- ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer ymddygiad trallodus seiliedig ar egwyddorion ymddygiad
- mynediad i raglenni awtistiaeth cenedlaethol sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth a derbyn yn y gymuned, i oedolion awtistig ar lefel leol
- gwybodaeth, cyngor, hyfforddiant a chymorth i deuluoedd a gofalwyr oedolion awtistig

(Cyfeiriwch at Ganllaw NICE CG142: Autism in adults: diagnosis and management)

[<http://www.nice.org.uk/guidance/cg142>]

[www.ASDinfoWales.co.uk/practitioner-toolkit-support-and-interventions-for-adults-with-asd](http://www.ASDinfoWales.co.uk/practitioner-toolkit-support-and-interventions-for-adults-with-asd)

### Rhieni a Gofalwyr

Er nad yw'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc, bydd y gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i gefnogi rhieni a gofalwyr.

(Cyfeiriwch at Ganllaw NICE CG170: Autism in under 19s: support and management)

[<http://www.nice.org.uk/guidance/cg170>]

[www.ASDinfoWales.co.uk/practitioner-toolkit-support-and-interventions-for-children-with-asd](http://www.ASDinfoWales.co.uk/practitioner-toolkit-support-and-interventions-for-children-with-asd)

### Oedolion ifanc

Mae'n bosibl fod angen cyfuniad o ddulliau oedolyn/plentyn ar oedolion ifanc a allai gael eu hwyluso gan y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. Mae angen i hyn gael ei drafod a'i gytuno'n lleol ym mhob rhanbarth gyda'r Gwasanaethau Niwroddatblygiadol



## Casglu data

Bydd data cywir yn cael ei gasglu a bydd monitro canlyniadau'n ein galluogi i ddysgu mwy am anghenion unigolion awtistig, er mwyn gwella ac addasu'n harfer. Bydd hyn hefyd yn llywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau i'r dyfodol ar y cyd â'r data ychwanegol a gasglwyd trwy Asesiadau o Anghenion Poblogaeth yr ardal.

Mae angen i ni sicrhau bod data:

- yn gyson ac felly'n gymharol
- yn ystyrllon i bobl awtistig
- yn ystyrllon i wasanaethau iechyd, yr ALL a'r 3<sup>ydd</sup> sector
- yn adlewyrchu'r meysydd y mae'r Gwasanaeth yn bwriadu mynd i'r afael â nhw

## Trefniadau adrodd

Bydd yn ofynnol i ardaloedd adrodd bob chwarter gan ddefnyddio'r fframwaith adrodd cenedlaethol a chan ddefnyddio gwybodaeth o'r Seren Ganlyniadau.

## Cysondeb adrodd

Bydd hi'n bwysig cael cysondeb wrth adrodd ar draws Cymru, ac felly bydd y pwyntiau mesur fel a ganlyn:

## Asesiad Diagnostig - Oedolion

Dylid cyfrif atgyfeiriadau o'r dyddiad '**y ceir atgyfeiriad priodol**'.

Bydd atgyfeiriad yn cael ei ystyried yn 'briodol' pan fydd yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol;

- arwyddion ac/neu symptomau
- hanes datblygiadol/plentyndod (os yn hysbys)
- hanes meddygol perthnasol ac ymchwiliadau
- gwybodaeth o asesiadau blaenorol
- sgôr o AQ10 (os y'i defnyddir)

ac yn dynodi **o leiaf un** mater o bob un o'r ddwy restr ganlynol:

### Un neu'n fwy o'r canlynol:

- Anawsterau parhaol mewn rhyngweithio cymdeithasol
- Anawsterau parhaol mewn cyfathrebu cymdeithasol
- Ymddygiadau ystrydebol (haearnidd ac ailadroddus), gwrthwynebiad i newid neu fuddiannau cyfyngedig

## Ac

### Un neu'n fwy o'r canlynol:

- Problemau wrth gaffael neu gynnal cyflogaeth neu addysg
- Anawsterau wrth gychwyn neu gynnal perthnasoedd cymdeithasol
- Hanes o gyflwr niwroddatblygiadol (gan gynnwys anabledau dysgu ac anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd) neu anhwylder meddyliol.

Os na fydd digon o wybodaeth i roi barn am briodoldeb, dylid cysylltu â'r atgyfeiriwr a rhoi cyngor ar atgyfeirio. Ni fydd hyn yn cyfrif fel atgyfeiriad ar y cam hwn.

Os bydd yr atgyfeiriad yn cynnwys digon o wybodaeth, ond nid yn dynodi anhwylder y sbectrwm awtistig, dylai'r atgyfeiriwr gael ei gynghori, ni fydd hyn yn cyfrif fel atgyfeiriad priodol (*Gellir edrych ar ffurflen atgyfeirio yn Atodiad 1*).

Dylai **'apwyntiad cyntaf'** gynnwys apwyntiadau trafod cyn ddiagnostig.

### Cefnogaeth

Dylid cyfrif atgyfeiriadau o'r dyddiad y derbynnir atgyfeiriad priodol. Dylai atgyfeiriad priodol gynnwys digon o wybodaeth i'r tîm allu egluro:

- Oedran
- Ydy'r unigolyn yn gymwys am wasanaethau Anableddau Dysgu/Iechyd Meddwl
- Y cyngor neu'r cymorth y mae'r unigolyn yn gofyn amdano
- Bod yr unigolyn wedi caniatáu'r atgyfeiriad
- Yr ardal y mae'r unigolyn yn byw ynddi

A dylid ei dderbyn gan y tîm os oes gan yr unigolyn:

- ddiagnosis o awtistiaeth (neu yn achos plant yn rhiant / gofalwr plentyn gyda diagnosis o awtistiaeth)
- nid oes gan yr unigolyn Anabledd Dysgu cymedrol i ddifrifol nac anhawster Iechyd Meddwl
- yn methu troi at gyngor na chefnogaeth gan y gwasanaethau statudol oherwydd eithriad cymhwyster (a lle nad yw'r ddarpariaeth ar gael rhywle arall)

Dylid cyfrif yr **'apwyntiad cyntaf'** fel **'y cyswllt cyntaf y gwna aelod o'r tîm gyda'r bwriad o ddarparu cymorth i'r unigolyn'**

Bydd hyn yn cynnwys cyngor, cyfeirio neu ymyriadau uniongyrchol, yn dibynnu ar y math o gefnogaeth y gofynnwyd amdani a'r gefnogaeth yr ystyriwyd ei bod yn briodol gan y tîm. Dylid cofnodi natur yr ymyriad at ddibenion adrodd a monitro.

*(Gellir edrych ar ffurflen atgyfeirio yn Atodiad 2)*

## Safonau

### Safonau am asesiad diagnostig

Yn dilyn ymlaen o waith Rhwydwaith Diagnostig i Oedolion Cymru Gyfan, mae'r safonau cytûn am asesiad diagnostig fel a ganlyn:

#### Safon 1:

Ceir un pwynt mynediad am asesiad diagnostig o'r holl anhwylderau ar y sbectrwm awtistig

#### Safon 2:

Gwneir y penderfyniad ar dderbyn atgyfeiriad ai peidio ar sail ansawdd y wybodaeth a ddarperir (fel yr amlinellir yng nghanllawiau NICE). Lle mae gwybodaeth ddigonol i gefnogi pryder, ni ddylai mynediad fod yn destun atgyfeiriwyr a ganiateir, y defnydd o holiaduron sgrinio neu fanylebau eraill. Dylai'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig gysylltu â gwasanaethau eraill mewn perthynas ag atgyfeiriadau am asesiad diagnostig, er mwyn i'r gwasanaeth mwyaf priodol ymgymryd â'r asesiad.

#### Safon 3:

Pan na dderbynnir atgyfeiriadau, darperir rhesymeg i'r atgyfeiriwr am hyn, ochr yn ochr â chynghor ar sut i wella'r atgyfeiriad neu pa wasanaeth arall i atgyfeirio ato fel y bo'n briodol.

#### Safon 4:

Cynllunnir asesiadau mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gan sicrhau bod gwybodaeth ddigonol yn cael ei chasglu i greu proffil o angen yr unigolyn (fel yr amlinellir yng nghanllawiau NICE), gan sicrhau dull darbodus, hyblyg o ddefnyddio'r adnoddau.

#### Safon 5:

Ceir trafodaeth amserol sy'n cynnwys yr holl bobl sydd ynghlwm â'r broses asesu sy'n arwain at benderfyniad am ganlyniad yr asesiad, proffil o gryfderau'r unigolyn a'r anawsterau a'r argymhellion am gymorth i'r dyfodol.

#### Safon 6:

Bydd gweithiwr proffesiynol sydd wedi bod ynghlwm â'r broses asesu yn cyfleu canlyniad yr asesiad gyda'r unigolyn. Dilyniar hyn ar bapur, a lle rhoddir caniatâd, dylid ei rannu gyda'r meddyg teulu.

#### Safon 7:

Dylid darparu gwybodaeth ac arweiniad i'r unigolyn, ochr yn ochr â chynghor ar ble a sut i droi at gymorth i'r dyfodol.

## Safonau ar gyfer gwybodaeth ôl-ddiagnostig a ddarperir

Mae adborth cyson gan rieni a gofalwyr yn dangos anghysondeb yn y wybodaeth a ddarperir yn dilyn y diagnosis. Felly, dylai'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ac/neu'r gwasanaeth Niwroddatblygiadol (tîm diagnostig) ddarparu'r canlynol:

### Rhieni a Gofalwyr

Darparu gwybodaeth am:

- Gymorth ac adnoddau
- Sefydliadau allweddol yn yr ardal leol
- Pa hyfforddiant sydd ar gael yn yr ardal leol

### Oedolion

Cynnig i'r holl oedolion sydd wedi cael diagnosis o awtistiaeth (ni waeth ydyn nhw angen neu wedi gwrthod gofal a chymorth pellach) apwyntiad dilyn i fyny i drafod:

- goblygiadau'r diagnosis
- unrhyw bryderon sydd ganddynt am y diagnosis
- unrhyw gymorth i'r dyfodol y gallai fod arnynt ei angen

Os oes angen, gwnewch broffil un tudalen neu gynllun sêr canlyniadau i ddynodi'r meysydd i weithio arnynt.

Darparu adnoddau fel y bo angen a gyflëir trwy'r hyn sydd ar gael yn [www.ASDinfoWales.co.uk](http://www.ASDinfoWales.co.uk)

## Atodiad 1 – Ffurflen Atgyfeirio Aseiad Diagnostig



### Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Ffurflen Atgyfeirio Aseiad Diagnostig

#### Manylion yr Atgyfeiriwr

Dyddiad	
Enw	
Cyfeiriad	
Rhifau Ffôn	
Cyfeiriad e-bost	
Perthynas â'r unigolyn a atgyfeiriwyd	

#### Manylion yr Unigolyn a Atgyfeiriwyd

Cyfenw	
Enwau Cyntaf	
Rhywedd (rhowch gylch)	Gwryw                      Benyw                      Arall
Dyddiad Geni	
Cyfeiriad Cyfredol	
Rhifau ffôn	
Cyfeiriad e-bost	

#### Manylion y Gofalwr (os yn berthnasol)

Cyfenw	
Enwau Cyntaf	

Cyfeiriad	
Rhifau ffôn	
Cyfeiriad e-bost	

**Manylion meddyg teulu**

Enw	
Cyfeiriad y Feddygfa	
Rhif Ffôn	

**Amlinellwch yr AMLWG / Symptomau y mae'r unigolyn yn eu profi:**

Dyluniwyd yr enghreifftiau isod i helpu cefnogi'ch atgyfeiriad. Ar gyfer canllawiau atgyfeirio, gweler Canllaw NICE CG142: Autism in Adults: diagnosis and management [Dolen: <http://www.nice.org.uk/guidance/cg142>] ac Autism Spectrum Disorder Toolkit Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu <http://www.rcgp.org.uk/clinical-and-research/toolkits/asd-toolkit.aspx> neu [www.ASDinfoWales.co.uk/recognise-ASD-adult](http://www.ASDinfoWales.co.uk/recognise-ASD-adult)

**Rhyngweithio cymdeithasol a chyfathrebu ar lafar**

Gallai'r enghreifftiau gynnwys problemau gyda defnyddio/deall iaith: diffyg diddordeb mewn rhyngweithio cymdeithasol; anhawster gyda chyfathrebu cymdeithasol, perthnasoedd cymdeithasol, cyfeillgarwch, ymwybyddiaeth o/ymateb i deimladau pobl eraill

**Rhowch fanylion effaith yr anawsterau (gan gynnwys meysydd bywyd a effeithir arnynt)**

**Rhowch gylch os ceir anawsterau gyda'r canlynol:**

laith (cyfyngedig, ailadroddus, yn adleisio (ecoleferydd) neu lythrennol)	Rhyngweithio gyda phobl gyfoed (yn osgoi, yn oddefol neu'n ddifater)	Dulliau o droi at eraill (unochrog, heb fod yn ddwyochrog)	Gwneud neu cadw ffrindiau	Ymwybyddiaeth o, neu ymateb i deimladau pobl eraill	Chwilio am gysur neu roi cysur	Rhannu diddordebau / mwynhad gydag eraill
---	--	--	---------------------------	---	--------------------------------	---

### Dychmyg, syniadau a chreadigedd

Gallai'r enghreifftiau gynnwys diffyg ffug-chwarae gyda theganau yn ystod plentyndod, gweithgareddau dychmygus ar eu pen eu hunain, diffyg creu neu rannu syniadau creadigol gyda phobl eraill (pob oedran), gallu mewn plant hŷn ac oedolion i ragweld canlyniadau eu camau neu ddisgwyliadau eu hunain, bwriadau pobl eraill.

### Rhowch fanylion effaith yr anawsterau (gan gynnwys y meysydd bywyd yr effeithiwyd arnynt)

Rhowch gylch os ceir anawsterau gyda:

Chreu syniadau digymell, creadigol	Rhannu gweithgareddau dychmygus gyda phobl eraill	Darogan disgwyliadau, bwriadau pobl eraill	Dychmygu canlyniadau eu camau gweithredu ar bobl eraill
------------------------------------	---	--	---

### Ystumiau a chyfathrebu heb eiriau

Gallai'r enghreifftiau gynnwys: defnydd anaml o bwyntio i ddangos gwrthrychau, ystumiau gyda diffyg naturioldeb neu briodoldeb, yn enwedig ystumiau sy'n mynegi emosiwn; mynegiant yr wyneb, naws y llais, cyswllt llygaid, iaith y corff, agosrwydd

### Rhowch fanylion effaith y symptomau hyn (gan gynnwys meysydd bywyd yr effeithir arnynt)

Rhowch gylch os profir anawsterau gyda'r canlynol:

Pwyntio i ddangos/ rhannu gwrthrychau	Ystumiau a fynegir yn emosiynol	Naws y llais, mynegiant yr wyneb neu gyswllt llygaid	Iaith y corff, agosrwydd
---------------------------------------	---------------------------------	--	--------------------------

### Ystod gul o ddiddordebau, arferion ac ymddygiadau ailadroddus

Gall yr enghreifftiau gynnwys patrwm cyfyngedig o weithgareddau hunanddewisol, trefnu gwrthrychau yn batrymau, ymddygiadau motor ailadroddus (e.e. chwifio dwylo, troelli), arferion ailadroddus/defodau, diddordebau gyda ffocws gormodol

### Rhowch fanylion effaith y symptomau hyn (gan gynnwys y meysydd bywyd yr effeithir arnynt)

:

### Rhowch gylch os ceir anawsterau gyda'r canlynol:

Patrwm cyfyngedig o weithgareddau hunanddewisol	Trefnu gwrthrychau yn batrymau (hwyrach na fydd yn hoffi rhywun yn eu haflonyddu)	Mynnu ar gadw arferion yn ddigynnewid	Ymddygiadau motor ailadroddus	Diddordebau gyda ffocws gormodol
---	---	---------------------------------------	-------------------------------	----------------------------------

### Ymatebion Synhwyrdd

Gall enghreifftiau gynnwys sensitifrwydd uwch neu osgoi teimladau penodol (golwg, seiniau, cyffyrddiad, arogl neu flas; chwilio anarferol am deimladau allan o'r synhwyrdd; gostyngiad synhwyrdd llai i boen neu dymheredd

### Rhowch fanylion effaith y symptomau hyn (gan gynnwys y meysydd bywyd yr effeithir arnynt)

### Rhowch gylch o amgylch pob un sy'n berthnasol:

Ymatebion anarferol i seiniau, golygon anarferol	Ymatebion anarferol i flas, arogl, cyffyrddiad	Llai o ymateb synhwyrdd i boen neu dymheredd
--	--	--

### Ydy'r unigolyn wedi cael profiad o unrhyw un o'r canlynol?

Rhowch fanylion unrhyw broblemau wrth gael neu gynnal addysg neu gyflogaeth:



Rhowch fanylion unrhyw anawsterau wrth gychwyn neu gynnal perthnasoedd cymdeithasol:

Rhowch fanylion unrhyw gyswllt blaenorol neu gyfredol gyda gwasanaethau iechyd meddwl neu anableddau dysgu:

Rhowch fanylion unrhyw hanes o gyflwr niwroddatblygiadol neu anhwylder meddyliol:

Oes gan yr unigolyn aelod o'r teulu sydd â diagnosis o Anhwylder y Sbectrwm Awtistig neu gyflwr niwroddatblygiadol arall?

### **Gwybodaeth Ychwanegol**

**Dychwelwch i:**

## Caniatâd

Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn darparu cymorth ar y cyd ag ystod o sefydliadau i helpu unigolion awtistig (ac oedolion sy'n amau y gallent fod yn awtistig ac sydd am gael eu hasesu).

Rwy'n deall o roi caniatâd i'r atgyfeiriad hwn, fy mod i'n cytuno i gael cymorth gan y gwasanaeth a'r sefydliadau sy'n gweithio ochr yn ochr ag ef.

Rwy'n deall y bydd y wybodaeth a gofnodir yn cael ei defnyddio i helpu gweithwyr proffesiynol i ddeall pa gymorth y mae arnaf ei angen ac y gallai gael ei rhannu gydag asiantaethau eraill fel rhan o'r broses.

Rwy'n deall lle nad ydw i'n cytuno i rannu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill, gallai hyn effeithio ar y gwasanaeth a ddarperir a hwyrach na dderbyniaf unrhyw wasanaeth.

Rwy'n deall y bydd y wybodaeth a gofnodir yn cael ei storio yn unol â Phrotocol Rhannu Gwybodaeth y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ac fe'i defnyddir at ddibenion darparu'r cymorth gofynnol. Rwy'n deall hefyd y bydd data dienw'n cael ei rannu gyda phartneriaid allanol at ddiben monitro a gwerthuso.

Os nad ydych yn caniatáu i'r wybodaeth hon gael ei rhannu, peidiwch ag arwyddo'r ffurflen. Os dymunwch rannu gwybodaeth gydag asiantaethau penodol yn unig neu beidio â rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau, nodwch isod.

Rwy'n deall y broses ac yn caniatáu i'r wybodaeth hon gael ei rhannu

Rwy'n deall y broses ac yn caniatáu i'r wybodaeth hon gael ei rhannu gyda'r asiantaethau canlynol yn unig

Enw'r unigolyn	
Llofnod yr unigolyn	
Dyddiad	



<b>Cyfeiriad</b>	
<b>Rhifau Ffôn</b>	
<b>Cyfeiriad e-bost</b>	

Fel rhan o'n proses atgyfeirio, byddwn yn gofyn am wybodaeth ychwanegol am yr unigolyn / gofalwr er mwyn cadarnhau'r ymateb mwyaf priodol. Mae hyn yn ein helpu ni i ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon.

Dynodwch hoff ddull o gysylltu (sylwch, heb hwn, ni fyddwn yn gallu prosesu'r atgyfeiriad):

Gellir cael rhagor o wybodaeth gan yr:	
Unigolyn	
Rhiant / Gofalwr	
Atgyfeiriwr	
Hoff ddull o gysylltu:	
Galwad ffôn	
e-bost	
Trwy'r post	
Os galwad ffôn, nodwch yr amser gorau i ffonio:	
(tîm i roi dewisiadau fan hyn)	

### Manylion Meddyg Teulu

<b>Enw</b>	
<b>Cyfeiriad y Feddygfa</b>	
<b>Rhif Ffôn</b>	

### Manylion yr Ysgol (os yn berthnasol)

<b>Enw'r Ysgol</b>	
<b>Cyfeiriad yr Ysgol</b>	
<b>Enw Cyswllt yr Ysgol</b>	
<b>Manylion Cyswllt yr Ysgol</b>	

**Ydy'r unigolyn yn cael ei gefnogi gan unrhyw un o'r gwasanaethau isod ar hyn o bryd?  
(ticiwch bob un sy'n berthnasol)**

CAMHS		Anableddau Dysgu	
Iechyd meddwl cymunedol		Addysg	
Gofal cymdeithasol		Trydydd sector	
Iechyd meddwl sylfaenol		Iechyd plant	
Therapi Galwedigaethol (y tu allan i'r IAS)		SaLT (Y tu allan i'r IAS)	
Cludiant		Tîm Niwroddatblygiadol	
Dechrau'n Deg		Teuluoedd yn Gyntaf	
Arall (nodwch):			

**Amlinellwch y Prif Reswm am yr atgyfeiriad**

**Nodwch y canlyniadau a ddymunir ar gyfer yr unigolyn sy'n cael ei atgyfeirio**

**Dychwelwch i:**

## Caniatâd

Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn darparu cymorth ar y cyd ag ystod o sefydliadau i helpu unigolion awtistig (ac oedolion sy'n amau y gallent fod yn awtistig ac sydd am gael eu hasesu).

Rwy'n deall o roi caniatâd i'r atgyfeiriad hwn, fy mod i'n cytuno i gael cymorth gan y gwasanaeth a'r sefydliadau sy'n gweithio ochr yn ochr ag ef.

Rwy'n deall y bydd y wybodaeth a gofnodir yn cael ei defnyddio i helpu gweithwyr proffesiynol i ddeall pa gymorth y mae arnaf ei angen ac y gallai gael ei rhannu gydag asiantaethau eraill fel rhan o'r broses.

Rwy'n deall lle nad ydw i'n cytuno i rannu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill, gallai hyn effeithio ar y gwasanaeth a ddarperir a hwyrach na dderbyniaf unrhyw wasanaeth.

Rwy'n deall y bydd y wybodaeth a gofnodir yn cael ei storio yn unol â Phrotocol Rhannu Gwybodaeth y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ac fe'i defnyddir at ddibenion darparu'r cymorth gofynnol. Rwy'n deall hefyd y bydd data dienw'n cael ei rannu gyda phartneriaid allanol at ddiben monitro a gwerthuso.

Os nad ydych yn caniatáu i'r wybodaeth hon gael ei rhannu, peidiwch ag arwyddo'r ffurflen. Os dymunwch rannu gwybodaeth gydag asiantaethau penodol yn unig neu beidio â rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau, nodwch isod.

**Rwy'n deall y broses ac yn caniatáu i'r wybodaeth hon gael ei rhannu**

**Rwy'n deall y broses ac yn caniatáu i'r wybodaeth hon gael ei rhannu gyda'r asiantaethau canlynol yn unig**

--

*Os gall y plentyn neu'r unigolyn ifanc ddeall, yna gallant ddarparu eu caniatâd eu hunain. Lle na all plentyn neu rywun ifanc ddeall hynny, gallai'r rhiant neu'r gwarcheidwad cyfrifol roi caniatâd ar eu rhan.*

<b>Enw'r unigolyn</b>	
<b>Llofnod yr unigolyn</b>	
<b>Dyddiad</b>	

**NEU**

<b>Enw'r rhiant/ gwarcheidwad</b>	
<b>Llofnod rhiant / gwarcheidwad</b>	
<b>Dyddiad</b>	